AlphaPlus

YMCHWIL ANSODDOL GYDA DYSGWYR I YMCHWILIO I FARN AM ASESIADAU DI-ARHOLIAD

Cam 2: Crynodeb Gweithredol

Andrew Boyle

Gerallt Hughes

Andy Lewis

Dr Hayley Limmer

Ben Smith

Medi 2020

AlphaPlus Consultancy Ltd

Cydnabyddiaethau

Gwnaethpwyd yr ymchwil hwn yn bosibl diolch i'r athrawon a gytunodd i gynnal grwpiau ffocws a'r dysgwyr a rannodd eu profiadau gyda ni.

Rydym yn ddiolchgar i hwyluswyr y grwpiau ffocws, Michael Morris, Rhys Roberts, Dewi Roberts, Marc Roberts, Cath Cole, a Sian Parri a deithiodd ledled Cymru i siarad â dysgwyr.

Rheolwyd y prosiect hwn gan Dr Rachael Sperring a Kerry Jones yn Cymwysterau Cymru.

Cwblhawyd y gwaith maes ar gyfer y prosiect hwn cyn cyfnod clo Covid-19.

Crynodeb gweithredol

Nodau ymchwil

Yn draddodiadol mae cymwysterau TGAU wedi asesu gwybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth trwy gyfuniad o arholiadau ysgrifenedig, arholiadau llafar, asesiadau rheoledig, portffolios a gwaith cwrs. Mae asesiadau di-arholiad (NEA) yn cyfeirio at unrhyw fath o asesiad nad yw'n cael ei gymryd gan bob ymgeisydd ar yr un pryd o dan amodau rheoledig ac mae'n rhoi rheolaeth dros yr asesiad ar dri phwynt; gosod y dasg, cymryd y dasg a marcio'r dasg.[1] [2]

Mae Llywodraeth Cymru yn cyflwyno cwricwlwm ysgol newydd yn 2022[3]. Yn unol â'r fframwaith cwricwlwm newydd hwn, mae potensial i newidiadau ddigwydd gyda chymwysterau a gymerir gan bobl ifanc 14-16 oed yng Nghymru, a allai gynnwys newidiadau i elfennau'r Asesiadau Di-arholiad.[4]

Fel rhan o raglen waith barhaus i ystyried sut y gall cymwysterau gefnogi'r cwricwlwm newydd i Gymru, mae Cymwysterau Cymru wedi datblygu prosiect ymchwil sy'n archwilio a yw'r dull cyfredol o ddarparu, asesu a chymedroli Asesiadau Di-arholiad (NEA) o fewn TGAU yn briodol. Mae gan y prosiect ymchwil hwn bedwar llinyn o waith, ac un ohonynt yw ymgysylltiad dysgwyr a amlinellir yn yr adroddiad hwn. Mae'r pedwar llinyn gwaith fel a ganlyn:

- Llinyn 1: Grwpiau ffocws pwnc-benodol ac arolwg ar-lein gydag athrawon yn trafod eu profiadau a'u canfyddiadau ynghylch Asesiadau Di-arholiad yn eu pynciau.
- Llinyn 2: Grwpiau ffocws pwnc-benodol gyda dysgwyr i archwilio eu syniadau am yr Asesiadau Di-arholiad y maent wedi'u cyflawni yn ddiweddar.
- Llinyn 3: Ymchwil i weithrediad asesu Asesiadau Di-arholiad, gan gynnwys dadansoddiad o dargedu a dibynadwyedd yr asesiadau, i ba raddau y maent yn gwahaniaethu rhwng ymgeiswyr ac a yw pwysiad a fwriedir yr Asesiadau Di-arholiad yn y graddau a dderbynnir gan ymgeiswyr yn cael ei gyflawni yn ymarferol.
- Llinyn 4: Archwiliad i gymedroli Asesiadau Di-arholiad.

Er mwyn gallu casglu, dadansoddi ac adrodd am ddata yn effeithlon, hwyluswyd yr ymgysylltiad ag athrawon a dysgwyr ar gyfer llinynnau 1 a 2 mewn dau gam. Cynhaliwyd Cam 1 yng ngwanwyn / haf 2019 ac archwiliwyd deg pwnc. Archwiliodd Cam 2 naw pwnc arall a chynhaliwyd hyn yng ngwanwyn 2020. Mae'r adroddiad ymchwil hwn yn cyfrannu at Gam 2 Llinyn 2. Mae'n crynhoi barn a phrofiadau Asesiadau Di-arholiad o safbwynt dysgwyr a oedd, ar adeg cymryd rhan yn y grwpiau ffocws, yn astudio ar gyfer y naw

---

[1]Ofqual (2013). *Review of Controlled Assessment in GCSEs.* Coventry: Ofqual. Ar gael oddi wrth: https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/377903/2013-06-11-review-of-controlled-assessment-in-GCSEs.pdf [Cyrchwyd 23 Awst 2018] .

[2]Mae hyn yn debyg i asesiad rheoledig yn Lloegr.

[3]Llywodraeth Cymru (2020). Canllawiau Cwricwlwm i Gymru. Ar gael oddi wrth: https://hwb.gov.wales/curriculum-for-wales/introduction/ [Cyrchwyd 4 Mai 2020].

[4]Llywodraeth Cymru (2020). Canllawiau Cwricwlwm i Gymru. Ar gael oddi wrth: https://hwb.gov.wales/curriculum-for-wales/introduction/ [Cyrchwyd 4 Mai 2020].

cymhwyster TGAU canlynol: dylunio a thechnoleg, bwyd a maeth, hanes, cyfryngau, Ffrangeg, Almaeneg a Sbaeneg (wedi'u grwpio fel ieithoedd tramor modern), cerddoriaeth a Chymraeg ail iaith. Mae'n dilyn adroddiad cynharach a archwiliodd brofiadau dysgwyr o Asesiadau Di-arholiad mewn perthynas â: celf a dylunio; cyfrifiadureg; drama; Iaith Saesneg; Llenyddiaeth Saesneg; daearyddiaeth; addysg gorfforol; gwyddoniaeth dyfarniad dwbl; Cymraeg; Llenyddiaeth Gymraeg.

Mae'r adroddiad yn ystyried y trywyddau ymholi canlynol:

- A yw dysgwyr yn ymwybodol o'i bwrpas?
- A yw dysgwyr o'r farn bod yr asesiadau'n deg?
- A yw dysgwyr yn teimlo bod Asesiadau Di-arholiad yn bwysig? Beth maen nhw'n ei gael ohono? Sut mae'n effeithio ar eu dysgu?
- Pa fathau o Asesiadau Di-arholiad y mae dysgwyr yn meddwl sy'n gweithio'n dda / ddim cystal a pham?
- A yw adborth a marcio yn ddigonol ac yn ddefnyddiol?
- A yw dysgwyr yn gwneud sawl ymdrech i gael graddau?
- Faint o amser sy'n cael ei dreulio ar Asesiadau Di-arholiad yn yr ystafell ddosbarth neu gartref?
- A yw dysgwyr yn derbyn help i gwblhau Asesiadau Di-arholiad gartref?
- A yw dysgwyr yn teimlo bod modd rheoli Asesiadau Di-arholiad ar draws pynciau?

Methodoleg

Cynhaliwyd tri deg pump o grwpiau ffocws ledled Cymru gan archwilio barn a phrofiadau oddeutu 280 o ddysgwyr. Ar gyfartaledd, roedd y grwpiau ffocws yn para 30-45 munud, gyda rhwng chwech a deg o ddysgwyr yn cymryd rhan ym mhob grŵp.

Casglwyd data gan bum hwylusydd dwyieithog ac un hwylusydd Saesneg ei iaith. Cynhaliwyd 14 grŵp mewn ysgolion Cymraeg neu ddwyieithog, a chynhaliwyd 12 sesiwn yn y Gymraeg. Pan rannwyd hwy yn ôl consortia addysg rhanbarthol, cynhaliwyd deg yng Nghanolbarth y De, naw yng Ngogledd Cymru, chwech yn Ne Ddwyrain Cymru a deg yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru.

Cafodd y grwpiau ffocws i gyd eu recordio a'u trawsgrifio. Yna cyfieithwyd y rhai a gynhaliwyd yn Gymraeg i'r Saesneg. Strwythurwyd y dadansoddiad yn ôl maes pwnc. Cafodd y trawsgrifiadau eu codio yn NVivo yn erbyn y llinellau ymholi. Cafodd y rhain eu codio ymhellach i gategorïau manylach a ddadansoddwyd ar gyfer tebygrwydd a gwahaniaethau rhwng ac o fewn y grwpiau.

Trosolwg o'r canlyniadau

Roedd dysgwyr yn tueddu i fod â safbwyntiau cadarnhaol iawn am Asesiadau Di-arholiad. Ar draws y grwpiau ffocws fe wnaethant ddweud eu bod yn cynyddu eu mwynhad o'r pwnc. Yn fras, roedd canfyddiadau dysgwyr o bwrpas yr Asesiadau Di-arholiad yn ymrannu i dri maes:

1. Asesu sgiliau'r byd go iawn
2. Asesu 'talent' yn elfen berfformio unrhyw bwnc
3. Lleihau pwysau asesu ar ddysgwyr

Gellid dehongli bod canfyddiadau o bwrpas a thegwch yr Asesiadau Di-arholiad yn rhai cydgysylltiedig. Canfuwyd dro ar ôl tro bod cynyddu tegwch yn ganlyniad bwriadedig o leihau pwysau ar ddysgwyr. Ystyrid yr Asesiadau Di-arholiad mewn perthynas â'r arholiad ysgrifenedig traddodiadol, yr oedd y rhan fwyaf o ddysgwyr yn ei ystyried yn straen, ac o'r herwydd ystyrid bod y cyfuniad o Asesiadau Di-arholiad ac arholiad yn decach na dull arholiad yn unig.

Teimlai dysgwyr fod yr Asesiadau Di-arholiad wedi cael effaith gadarnhaol ar eu dysgu gan ei fod yn rhoi iddynt:

- Y rhyddid i lywio eu prosiectau i gyfeiriad a oedd yn gweddu i'w meysydd diddordeb
- Y cyfle i ddysgu trwy wneud
- Mwy o hyder
- Rhywfaint o baratoi cyn eu harholiadau

Disgrifiodd mwyafrif y dysgwyr eu bod wedi derbyn rhywfaint o arweiniad gan athrawon ar ddechrau'r Asesiadau Di-arholiad ac adborth trwy gydol y broses. Dim ond nifer fach o ddysgwyr a drafododd dderbyn eu marciau dros dro, ar gyfer naill ai eu harholiadau ffug neu ar gyfer Asesiadau Di-arholiad a oedd wedi digwydd yn ffurfiol. Yn ôl Amod Safonol Ychwanegol C.2 Amodau Cydnabod Safonol Ychwanegol Cymwysterau Cymru ar gyfer cymwysterau TGAU / TAG, mewn pynciau lle mae'r ganolfan yn marcio'r asesiad, mae'n ofynnol i ganolfannau roi eu marciau i ddysgwyr cyn i'r gwaith gael ei anfon i'w gymedroli[5]. Cafwyd rhywfaint o awgrym gan ddysgwyr nad oedd hyn bob amser yn ymddangos fel pe bai yn digwydd, er y dylid nodi y gallai hyn fod oherwydd yr adeg o'r flwyddyn y cynhaliwyd y grwpiau ffocws.

Ni ddisgrifiodd unrhyw ddysgwyr eu bod wedi gwneud sawl ymgais ac nid oeddent yn rhagweld y gallent wneud hynny cyn diwedd y cymhwyster. Yn unol â'r adroddiad blaenorol, roedd llawer o ddysgwyr yn awyddus i dderbyn mwy o adborth.

Dywedodd llawer o ddysgwyr eu bod yn gweithio ar eu Asesiadau Di-arholiad gartref. Roedd hyn fel arfer yn waith paratoi, gwaith ymchwil neu ymarfer ond ni nododd dysgwyr eu bod wedi derbyn unrhyw help gan rieni neu frodyr a chwiorydd.

Yn gyffredinol, roedd y dysgwyr yn teimlo bod modd rheoli eu llwyth gwaith oedd yn gysylltiedig â'r Asesiadau Di-arholiad, yn enwedig pan oedd yn cael ei wneud yn ystod amser gwersi yn bennaf yn hytrach na gartref. Dywedodd nifer fach o ddysgwyr y gallai eu llwyth gwaith fod yn anodd ei reoli ochr yn ochr â gwaith cartref ac adolygu.

Rhoddir crynodeb o'r canlyniadau ar gyfer y pynciau unigol isod.

Dylunio a thechnoleg (50 y cant o Asesiadau Di-arholiad)

Ar gyfer dylunio a thechnoleg mae'n ofynnol i ddysgwyr dreulio oddeutu 35 awr ar dasg 'dylunio a gwneud' yn seiliedig ar her gyd-destunol a osodir gan CBAC. Mae'n ofynnol i ddysgwyr nodi posibiliadau dylunio, datblygu briff dylunio a chynhyrchu a datblygu syniadau dylunio. Yna mae'n ofynnol iddynt wneud prototeip a gwerthuso ei addasrwydd i'r pwrpas.

---

[5]Cymwysterau Cymru (2019). *Amodau Cydnabod Safonol Ychwanegol ar gyfer cymwysterau TGAU / TAG*: Casnewydd: Cymwysterau Cymru. [Ar-lein]. Ar gael oddi wrth: https://www.qualificationswales.org/english/publications/additional-standard-conditions-of-recognition-for-gcse-gce-qualifications/ [Cyrchwyd 16 Gorffennaf 2019].

Roedd dysgwyr o'r farn mai pwrpas yr Asesiadau Di-arholiad oedd eu helpu i ddatblygu, defnyddio ac asesu sgiliau ymarferol a hefyd i ddarparu amgylchedd asesu gyda llai o straen ynghlwm wrtho o'i gymharu ag arholiad ysgrifenedig. Fe wnaethant ddisgrifio sut roedd yr Asesiadau Di-arholiad yn brofiad cadarnhaol a roddodd ryddid iddynt fod yn greadigol a dangos eu doniau. Dywedodd rhai dysgwyr hefyd eu bod yn gwerthfawrogi'r profiad ymarferol o wneud yr Asesiadau Di-arholiad yn hytrach na darllen disgrifiad o sut i gyflawni tasg ymarferol.

Disgrifiodd mwyafrif y dysgwyr eu bod yn derbyn arweiniad cyffredinol gan eu hathrawon a rhywfaint o adborth cyffredinol ar sut i wella eu Asesiadau Di-arholiad. Roedd y rhan fwyaf o'r gwaith yn digwydd yn y dosbarth ac ni wnaeth unrhyw un nodi ei fod yn derbyn cymorth gartref. Ni chrybwyllwyd ymdrechion lluosog ac ni ragwelwyd y gellid gwneud hyn.

Roedd y dysgwyr yn tueddu i fod yn gadarnhaol iawn am eu profiadau o ran Asesiadau Di-arholiad. O ran meysydd y gellid eu gwella, roedd rhai awgrymiadau am gael mwy o waith ymarferol a mwy o gyfleoedd i gael adborth athrawon ar eu gwaith.

Bwyd a maeth (60 y cant o Asesiadau Di-arholiad)

Mae'n ofynnol i ddysgwyr bwyd a maeth gyflawni tasg ymchwilio i fwyd (er enghraifft ymchwilio i'r defnydd o felysyddion) a thasg paratoi bwyd (lle mae dysgwyr yn dylunio ac yn paratoi bwydlen tri chwrs). Mae gan y ddwy dasg gydrannau ysgrifenedig ac ymchwil cysylltiedig.

Roedd dysgwyr o'r farn mai pwrpas yr Asesiadau Di-arholiad oedd caniatáu iddynt ddysgu gwahanol sgiliau, megis sgiliau coginio ymarferol, na ellid eu hasesu mewn arholiad ysgrifenedig. Roeddent hefyd yn teimlo bod yr Asesiadau Di-arholiad wedi'u cynllunio i ganiatáu iddynt gael eu hasesu dros gyfnod hirach, yn hytrach nag mewn un arholiad byr. Roedd yr Asesiadau Di-arholiad hefyd yn cael eu hystyried yn ffordd o leihau pwysau asesu.

Adroddwyd bod yr Asesiadau Di-arholiad yn helpu i feithrin dealltwriaeth o gysyniadau a mecanweithiau coginio (er enghraifft sut mae burum yn gweithio) a rhoi cyfle ar gyfer dysgu annibynnol yr oedd rhai dysgwyr yn ei ystyried yn ffordd well o fynegi eu hunain na'r arholiad ysgrifenedig.

Cafwyd adroddiadau gwahanol ar y graddau yr oedd dysgwyr yn gweithio ar eu Asesiadau Di-arholiad gartref, gyda rhywfaint o goginio ac adolygu yn digwydd yno ond heb help gan aelodau'r teulu.

Ni wnaeth dysgwyr sawl ymdrech i wneud yr Asesiadau Di-arholiad, ond cynhaliwyd rhai asesiadau ymarfer yn y dosbarth. Adroddwyd am adborth gan athrawon a chyfoedion, ond ystyrid bod hyn o ansawdd amrywiol gyda sawl grŵp yn nodi y byddai'n well ganddynt gael gwell arweiniad ac adborth.

Hanes (20 y cant o Asesiadau Di-arholiad)

Mae'r Asesiadau Di-arholiad hanes ar ffurf dwy dasg sy'n cynrychioli 'gweithio fel hanesydd'. Mae'r dasg gyntaf yn canolbwyntio ar werthuso ffynonellau a'r ail ar ffurfio gwahanol ddehongliadau hanesyddol o hanes. Mae'n ofynnol i ddysgwyr gynhyrchu dau ddarn o waith ysgrifenedig y dylid eu cwblhau o fewn pum awr o amser goruchwylio ffurfiol.

Roedd canfyddiadau dysgwyr o bwrpas yr Asesiadau Di-arholiad yn amrywio yn ôl grŵp ffocws. Dywedodd rhai grwpiau mai un o bwrpasau'r Asesiadau Di-arholiad oedd caniatáu iddynt ddangos sgiliau cynllunio a dadansoddi yr oeddent yn rhagweld na fyddent efallai'n cael eu hasesu yn yr arholiad ysgrifenedig. Adroddodd eraill mai pwrpas yr Asesiadau Di-arholiad oedd rhoi cyfle i'r rheini nad oeddent yn gweddu cystal i gael eu hasesu yn yr arholiad traddodiadol.

Roedd y dysgwyr yn gadarnhaol am eu Asesiadau Di-arholiad a nododd llawer eu bod yn hoffi'r cyfle i weithio'n annibynnol mewn senario yr oeddent yn ei ystyried fyddai'n creu llai o straen nag arholiad traddodiadol. Dywedodd rhai dysgwyr hefyd fod yr Asesiadau Di-arholiad yn caniatáu iddynt deimlo'n fwy

parod ar gyfer eu gwaith ysgrifenedig ac roedd eraill yn teimlo bod yr Asesiadau Di-arholiad yn rhoi cyfle iddynt ddatblygu dealltwriaeth fanylach o bwnc penodol.

Ni ddisgrifiodd unrhyw un o'r dysgwyr eu bod wedi derbyn unrhyw adborth ffurfiol ar eu Asesiadau Di-arholiad, er bod rhai dysgwyr wedi nodi eu bod wedi derbyn arweiniad ar lefel dosbarth a bod hynny wedi bod yn ddefnyddiol. Ni nododd dysgwyr eu bod wedi gweithio ar eu Asesiadau Di-arholiad hanes gartref ac ni wnaethant roi sawl cynnig ar wneud yr un asesiad.

Roedd y dysgwyr yn gyffredinol yn gadarnhaol iawn am eu Asesiadau Di-arholiad hanes.

Astudiaethau cyfryngau (40 y cant o Asesiadau Di-arholiad)

Ar gyfer yr Asesiadau Di-arholiad astudiaethau cyfryngau mae'n ofynnol i ddysgwyr gynnal ymchwil, cynllunio, cynhyrchu a gwerthuso darn cyfathrebu ar y cyfryngau, a allai fod naill ai'n glyweledol, mewn print neu ar-lein. Mae sawl math o gyfathrebu ar y cyfryngau ar gael gan gynnwys teledu, cylchgronau, ffilm, cerddoriaeth a hysbysebu.

Roedd dysgwyr o'r farn bod yr Asesiadau Di-arholiad yn ffordd o ddarparu profiad dysgu yn y byd go iawn iddynt ac roeddent o'r farn nad oedd modd cynhyrchu cyfryngau o fewn cyfyngiadau amser arholiad ysgrifenedig traddodiadol. Roeddent hefyd o'r farn bod yr Asesiadau Di-arholiad yn cynnig dull o asesu fyddai'n cynhyrchu llai o straen nag arholiad ysgrifenedig.

O ran effaith yr Asesiadau Di-arholiad, nododd y dysgwyr fod elfen ymarferol eu gwaith yn eu helpu i ddysgu'r cynnwys. Fe wnaethant awgrymu hefyd ei fod yn sicrhau bod ganddynt sgiliau ymarferol, cynllunio ac ymchwil. Dywedodd sawl dysgwr fod yr Asesiadau Di-arholiad wedi rhoi rhyddid iddynt fod yn greadigol a'r annibyniaeth i deimlo perchnogaeth dros eu gwaith.

Adroddodd pob un o'r grwpiau ffocws eu bod wedi gweithio ar eu Asesiadau Di-arholiad gartref, ond dim ond dau ddysgwr a nododd eu bod yn derbyn cymorth gartref.

Disgrifiodd dysgwyr yn y rhan fwyaf o'r grwpiau ffocws astudiaethau cyfryngau eu bod wedi derbyn rhywfaint o arweiniad gan eu hathrawon ar ddechrau'r Asesiadau Di-arholiad a rhywfaint o adborth defnyddiol yn ystod y broses. Ni ddisgrifiodd yr un o'r dysgwyr y buom yn siarad â hwy yn ffurfiol eu bod wedi gwneud sawl ymgais, ond ailddechreuodd rhai dysgwyr eu gwaith ac roedd eraill yn dymuno ailddechrau ond nid oeddent yn gallu gwneud hynny oherwydd cyfyngiadau amser.

Adroddodd dysgwyr mewn tri o'r grwpiau ffocws nad oedd gan eu hadran cyfryngau'r pecynnau meddalwedd oedd yn ofynnol i gyflwyno'r cwrs. Dywedodd sawl dysgwr eu bod wedi gweithio gartref oherwydd mai hwn oedd yr unig le y gallent gael mynediad at y feddalwedd yr oedd ei hangen arnynt. Roedd rhai dysgwyr wedi prynu eu hoffer a'u meddalwedd eu hunain i allu cwblhau'r Asesiadau Di-arholiad.

Gofynnodd y dysgwyr am fwy o waith enghreifftiol ar gyfer yr Asesiadau Di-arholiad, gan y credent nad oedd hyn yn rhan o'u profiad o'r cwrs.

Ieithoedd tramor modern (yn cynnwys Ffrangeg, Almaeneg a Sbaeneg) (25 y cant o Asesiadau Di-arholiad)

Mae'r Asesiadau Di-arholiad ar gyfer ieithoedd tramor modern (Ffrangeg, Almaeneg a Sbaeneg) yn cynnwys tair tasg: ymarfer chwarae rôl, trafod llun sy'n cynnwys golygfa fel pryd o fwyd neu ddathliad a sgwrs. Nid oes cyfyngiad ar faint o amser y mae dysgwyr yn ei dreulio ar baratoi a gall hyn ddigwydd yn yr ysgol neu gartref. Trafododd y rhan fwyaf o ddysgwyr eu profiadau o Asesiadau Di-arholiad ffug gan nad oeddent wedi profi'r Asesiadau Di-arholiad byw eto.

Ystyriai dysgwyr fod gan eu Asesiadau Di-arholiad dri phwrpas allweddol: yn gyntaf, caniatáu i'w sgiliau siarad gael eu hasesu, a ystyrient oedd y tu hwnt i gylch gwaith arholiad ysgrifenedig traddodiadol. Yn ail,

eu paratoi ar gyfer yr arholiad ac yn drydydd lleihau pwysau'r asesu. Fe wnaethant ddweud bod yr Asesiadau Di-arholiad wedi effeithio arnynt mewn sawl ffordd sef, eu helpu i ddatblygu eu sgiliau iaith, gwella eu hyder a datblygu sgiliau paratoi ar gyfer asesiadau.

Dywedodd dysgwyr ym mhob grŵp ffocws eu bod wedi derbyn adborth (ond dim marciau) am eu perfformiad mewn ymarferion ar gyfer Asesiadau Di-arholiad neu Asesiadau Di-arholiad ffug. Fe wnaethant ddweud eu bod yn teimlo bod hyn yn ddefnyddiol o ran rhoi cywiriadau iddynt y gallent eu gwneud yn eu tasgau siarad yn y dyfodol.

Roedd dysgwyr yn tueddu i ymarfer eu Asesiadau Di-arholiad yn yr ysgol yn hytrach na gartref ac roeddent yn neilltuo cryn amser i'r gwaith paratoi hwn.

Dywedodd llawer o ddysgwyr fod nifer y pynciau y gellid o bosibl eu hasesu arnynt yn fawr ac roedd hyn yn her sylweddol wrth adolygu. Nododd dysgwyr mewn tri grŵp ffocws fod hyn, yn eu barn hwy, yn golygu bod gan yr Asesiadau Di-arholiad dueddiad i ddod yn brawf cof o gwestiynau ac atebion y gellid eu rhagweld, nad oeddent bellach yn dangos eu bod yn meistroli iaith.

Cerddoriaeth (70 y cant o Asesiadau Di-arholiad)

Rhennir yr Asesiadau Di-arholiad ar gyfer cerddoriaeth ar draws dwy dasg berfformio a dwy dasg gyfansoddi. Gellir cymhwyso'r rhain at bedwar maes astudio: ffurfiau a dyfeisiau cerddorol, cerddoriaeth ar gyfer ensemble, cerddoriaeth ffilm a cherddoriaeth boblogaidd.

Adroddodd y dysgwyr mai prif bwrpas yr Asesiadau Di-arholiad cerddoriaeth oedd dangos sgiliau perfformio na ellid eu dangos mewn arholiad ysgrifenedig.

Roedd barn y dysgwyr am yr Asesiadau Di-arholiad yn gadarnhaol a nododd sawl un fod hyn yn helpu i wella eu hyder. Ystyrient fod y rhyddid i ddewis caneuon a genre'r gerddoriaeth yn beth da, ynghyd â'r dysgu cynyddrannol yr oedd llawer yn teimlo oedd yn digwydd.

Ni ddisgrifiodd yr un o'r dysgwyr eu bod wedi gwneud sawl ymgais, ond trafododd dysgwyr yn y mwyafrif o grwpiau ffocws eu bod wedi ymarfer yn helaeth. Fe wnaethant drafod derbyn adborth cyffredinol gan eu hathrawon a'u tiwtoriaid preifat (nododd llawer o ddysgwyr eu bod yn cael gwersi cerddoriaeth y tu allan i'r ysgol).

Roedd y dysgwyr yn gadarnhaol iawn am eu profiad o Asesiadau Di-arholiad cerddoriaeth. Roedd y prif faes y soniwyd amdano ar gyfer gwella posibl yn ymwneud â chynyddu mynediad cyfartal at adnoddau, gan fod rhai adroddiadau yn crybwyll mynediad cyfyngedig i feddalwedd cyfansoddi neu offerynnau gartref a olygai fod gan rai dysgwyr lai o amser i gyfansoddi neu ymarfer o'i gymharu â'u cyfoedion.

Cymraeg Ail iaith (50 y cant Asesiadau Di-arholiad)

Mae'r Asesiadau Di-arholiad Cymraeg ail iaith yn cynnwys dwy dasg, y gyntaf yw sgwrs grŵp neu sgwrs mewn parau am gynnwys clip fideo. Mae'r ail yn gofyn i ddysgwyr drafod ysgogiad a ddarperir gan CBAC (gan gynnwys ystod o graffiau, lluniau a thestunau darllen byr). Yma maent yn ymateb ar lafar ac yn gwrando ar gyfoedion trwy ryngweithio mewn grŵp o ddau neu dri.

Dywedodd dysgwyr ym mhob grŵp ffocws mai pwrpas yr Asesiadau Di-arholiad oedd asesu sgiliau siarad a gwrando yn y byd go iawn y credent na allai ddigwydd mewn arholiad ysgrifenedig. Er hynny, roedd rhai dysgwyr hefyd o'r farn bod yr Asesiadau Di-arholiad yn eu paratoi ar gyfer yr arholiad, er enghraifft, trwy eu helpu i adolygu'r cynnwys. O ran effaith, nododd dysgwyr fod yr Asesiadau Di-arholiad wedi gwella eu sgiliau iaith a'u hyder ac yn rhoi cyfle iddynt gymryd rhan mewn gwaith grŵp, er i rai dysgwyr grybwyll y gallai hyn hefyd fod yn rhwystr os nad oedd aelodau'r grŵp yn cyfrannu'n gyfartal at y dasg.

Soniodd dysgwyr ym mhob grŵp ffocws am weithio ar eu Asesiadau Di-arholiad gartref ond roedd cael help gartref yn anghyffredin. Nododd llawer o grwpiau ffocws eu bod wedi derbyn adborth gan eu hathrawon am sut roeddent wedi perfformio ar eu Asesiadau Di-arholiad, ond nid oeddent wedi derbyn eu marciau gwirioneddol ar adeg y grŵp ffocws.

Trafododd dysgwyr ym mhob un o'r pum grŵp ffocws y dewis o bynciau fel mater a allai fod yn annheg gan fod y dysgwyr o'r farn bod eu perfformiad yn dibynnu rhywfaint ar gael pwnc addas, a fyddai'n rhoi cyfle iddynt ddangos eu sgiliau yn y dull gorau.

Unit 109 Albert Mill
10 Hulme Hall Road
Castlefield
Manchester
M15 4LY

www.alphaplus.co.uk
john.winkley@alphaplus.co.uk

+44 (0) 161 249 9249